


papur



priordy



**NI FETHODD GWEDDI DAER ERIOED Â CHYRRAEDD
HYD Y NEF**

**William Williams (1717-1791)
Rhif 166 Caneuon Ffydd**

Gweler yr erthygl ar Hau Hadau y tu mewn

**Rhifyn 359
PAPUR HYDREF 2022**


Gair gan ein Gweinidog

Waldathon?


MAE'R marathon, treiathlon ac ambell ddarllenathon ac orgathon yn lled gyfarwydd i ni, ond Waldathon?

Pwy ond Cymdeithas Waldo a fyddai'n mynd ati ar 1 Hydref, drannoeth i Ddiwrnod Waldo, i gynnal 'Waldathon' gyda'r bwriad o godi arian at y gymdeithas drwy noddi darlenniadau o'i holl gerddi.

Nod y gymdeithas ydy diogelu'r cof am waith a bywyd y bardd **Waldo Williams** a hyrwyddo cyfraniad y bardd o Sir Benfro at lân a diwylliant Cymru drwy ddehongli a chreu ymwybyddiaeth ddyfnach o'i waith yn lleol a chenedlaethol hefyd.



Sawl cerdd sy'n perthyn i'r bardd cynhyrchiol hwn? Wel, mae



317 o gerddi Cymraeg a 27 o gerddi Saesneg yng nghyfrol Alan Llwyd a Robert Rhys, **Cerddi Waldo 1922-1970**, sy'n gwneud cyfanswm o 344.

Bydd 20 o bobl ar draws Cymru yn arwain grwpiau i ddarllen tua 20 o gerddi Waldo yr un, gyda gwahoddiad i bobl ledled y wlad noddi'r darlenniadau am £5 fesul cerdd.

Meddai Emyr Llywelyn, un o lywyddion anrhydeddus Cymdeithas Waldo, *“At bwy y trown pan mae'r 'byd yn chwâl' am ysbrydoliaeth? At bwy ond Waldo – â'i weledigaeth am frawdgarwch dyn, am heddwch a phwysigrwydd iaith a bro.”*

GYDA'R sefyllfa drist yn Wcráin, Ethiopia, Affganistan, Iran, Yemen, Israel a Phalesteina, Haiti, Myanmar ar ein meddyliau ac yn ein gweddíau, at bwy y trown ni hefyd? Pwy ond Waldo, a chyd-ddyheu y gwelwn y...



Dydd y bydd mawr y rhai bychain,
 Dydd ni bydd mwy y rhai mawr,
 Daw'r bore ni wêl ond brawdoliaeth
 Yn casglu teuluoedd y llawr.

Gweddíwn

Rho ddewrder i ni Arglwydd
 i sefyll dros y rhai na fedrant sefyll dros eu
 hunain.



Na foed i ni chwilio am unrhyw heddwch
 ond yr heddwch sy'n perthyn i ti, a gwna ni'n offerynnau iddo,
 gan agor ein llygaid, ein clustiau a'n calonnau
 i fod yn ymwybodol o'r gwaith dros heddwch y gallwn ei wneud

Amen

DARLLENIADAU



Mis Hydref	Darlleniad
Wythnos 1	Marc 10: 2-16
Wythnos 2	Marc 10: 17-31
Wythnos 3	Marc 10: 35-45
Wythnos 4	Marc 10: 46-52
Wythnos 5	Marc 12: 28-34

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JANET A GWYNFOR DAVIES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn



Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth

Newid Dyddiad

Dydd Sul 23 Hydref 2022

Tafarn y New Cross, Dryslwyn

**12.30 (yn brydlon) ar gyfer bwyta
am 1.00**

Pris Oedolion: £13.50

Plant £7



Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel

**Dechrau
Canu**

Dechrau

Canmol

Dydd Sul,

16 Hydref 2022

Y Tabernacl Treforys

Bws yn gadael Bancyfelin am 12.50,

Cana am 12.55 a Heol y Prior am 1.05

i gyrraedd erbyn 2

Rob Nicholls

Arweinydd

Huw Tregelles Williams

Cyfeilydd

Ffilmio 2.30 tan 4 a dychwelyd adref

yn syth

Bws am ddim. Enwau i Beti-Wyn



HER YR EGLWYS ÔL-COVID

Anerchiad y Llywydd

yng Nghyfarfodydd

Blynyddol

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Caerfyrddin

7-9 Gorffennaf 2022

Beti-Wyn


James

Ar gael yng

Nghyntedd y

Capel

Pris £5



**PREGETHWR
Y CWRDD
DIOLCHGARWCH**
Papur Priordy'n holi
**Y Parchedig David Jones
Gweinidog Eglwys
Greenfield, Llanelli**



PP: Mae'n siŵr ei bod yn wir dweud fod y pandemig wedi newid pob agwedd ar ein bywyd.

Allwch chi esbonio wrthym sut mae wedi effeithio ar eich gweinidogaeth chi?

DJ Mae'r pandemig wedi cael effaith amlwg ar yr holl eglwysi. Daeth y 'cyfnod clo' cyntaf yn gyflym ac fel llawer o eglwysi roedd yn rhaid i ni addasu. Dechreuwyd gwasanaethau ar y Sul 'ar-lein' ac i'r rhai nad oedd ganddynt fynediad atynt dechreuon ni wasanaethau 'Galwad Cynhadledd' dros y ffôn. Roedd hi'n amhosibl bugeilio ac roedd yn rhaid i ni ddefnyddio'r 'ffôn hefyd i gadw cyswllt ag aelodau a ffrindiau'r eglwys. Ry'n ni'n parhau i recordio oedfa bob bore Sul ar YouTube a Wepryd.



PP: Mae nifer ein gweinidogion a'n hoffeiriad yn lleiháu a gormodedd o adeiladau'n pwysu'n drwm arnom ym mhob enwad mewn sawl tref neu bentref. Tybed sut mae symud ymlaen wrth i'r argyfwng ysbrydol yng Nghymru ddwysáu?

DJ: Mae'n wir bod nifer ein gweinidogion yn lleihau. Ar un amser roedd gweinidog ym mhob capel ac eglwys yn Llanelli. Er y lleihad yn yr eglwysi traddodiadol mae cynnydd yn yr eglwysi newydd 'annibynnol' sydd wedi codi yn nhref Llanelli ac sy'n llwyddo i ennill cynulleidfa o bob oedran. Mae yna eithriadau ac mae rhai capeli yn y dref a'r ardal yn ennill tir ac ry'n



ni'n ddiolchgar am hynny. Ynglŷn â'r dyfodol - 'Iesu Grist yr un ddoe, heddiw ac yfory yr un.'

PP: Soniwch ychydig wrthym am eich gwreiddiau a sut y daethoch i'r weinidogaeth a hynny ychydig yn ddiweddarach yn eich bywyd.

DJ: *Mae fy ngwreiddiau yn Lan-y-môr yn Llanelli. **Bethel**, eglwys*



*Fedyddiedig oedd ein cartref ysbrydol fel teulu. Gadewais yr ysgol yn 16 oed a dechrau gweithio yn ffatri Austin Rover yn Felinfoel a gweithiais yno am ddwy flynedd ar hugain. Fel dyn ifanc deuthum i ffydd yn Iesu Grist a chael fy meddyddio gan **Y Parchedig Tregelles Williams** a dod yn aelod o'r eglwys.*

Roeddwn

*yn weithgar fel un o'r arweinyddion ieuentid ym Methel. Roedd gan yr eglwys un o'r clybiau ieuentid mwyaf yn Ne Cymru ac mae llawer o'r bobl ifanc yn dal i fod yn ffrindiau hyd heddiw. Cefais gyfle i rannu'r Efengyl gyda'r bobl ifanc oedd yn llanw'r 'festri' bob nos Fercher. Rwy'n dra ddiolchgar i'r Parchedig Tom Morgan. Roedd ei amynedd a'i arweiniad ac yn fwy na dim byd arall ei bregethu wedi fy ysbrydoli. Daeth 'yr alwad' i'r Weinidogaeth ym 1985. Erbyn hynny, ro'n i'n briod ag Yvonne gyda thri o blant ifanc a'r ymateb i'r alwad yn ymddangos bron yn amhosibl. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth Yvonne a'r eglwys ym Methel ymunais â Choleg Bedyddwyr De Cymru ym 1986. Yn y pen draw, graddiais gyda BD a derbyn galwad yn ôl i dref Llanelli ac i eglwys Saesneg **Greenfield** lle rwyf wedi gweinidogaethu nawr am 33 o flynyddoedd.*



PP: Tybed pa agweddau ar y weinidogaeth sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

DJ: *Rwy'n cael boddhad mawr wrth bregethu Gair Duw. Rwy'n hoff o ymweld a bod o gymorth a help i bobl, yn arbennig mewn amseroedd o dostrwydd a phroffedigaeth. Yn ddiweddar, mae'r eglwys wedi agor*

Gorsaf Gawl (Soup Station) sy'n helpu a chefnogi pobl ddigartref a'r rhai sy'n byw dan amgylchiadau anodd.

PP: Rydych yn dipyn o organydd hefyd ac nid anarferol yw'ch gweld yn symud o'r pulpud at yr organ ac yna'n ôl pan fo'r angen yn codi!



DJ: Bues yn organydd Bethel am dros ugain mlynedd. Gwelodd **John Hywel Williams** ryw botensial cerddorol ynof yn Ysgol Coleshill a chefais i wersi piano ac yna'r organ yn Eglwys yr Holl Saint yn Llanelli. Ffrwyth hyn oedd cyfnod maith o hapusrwydd ym Methel wrth yr organ. Rwy'n cymryd mantais o'r cyfle yn Greenfield i ganu'r organ pan mae'r angen yn codi!



PP: Tybed a oes gennych hoff emyn-dôn?

DJ: Emyn anfarwol William Williams 'Enynnais ynof dân' ar y dôn 'Y Faenol' gan William Probert, Bethel, Glan-y-môr, Llanelli. Rhoddodd William Probert flynyddoedd o wasanaeth i Fethel, Bu'n godwr canu yn yr eglwys am 44 o flynyddoedd. Ysgrifennodd doreth o emyn-donau ond Y Faenol yn anad yr un dôn arall sydd wedi dod ag e i amlygrwydd. Hefyd, emyn Saesneg Charles Wesley 'And can it be?' ar y dôn Sagina a gyfansoddwyd gan Thomas Campbell, brodor o Swydd Efrog.



PP: Soniwch ychydig am y teulu a'r cyswllt â Chaerfyrddin

DJ: Soniais eisoes am Yvonne, fy ngwraig, sy'n dod yn wreiddiol o Graig-cefn-parc. Mae yna gysylltiad agos â Chaerfyrddin gan ddau o'n plant. Mae ein merch, Rhian [ar y chwith yn y llun o'r plant], yn darlithio yng Ngholeg Pibwrlwyd a Gareth, ein mab, yn addysgu hanes yn

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Yn y brifddinas yng Nghaerdydd mae'n merch hynaf Bethan - yn gweithio yno gyda'r BBC.

PP: Rydych yn golofnydd wythnosol yn y *Llanelli Star*. Ydy'r cyswilt hwn â'r gymuned leol yn bwysig i chi?

DJ: *Rwy'n ysgrifennu erthygl wythnosol i'r 'Llanelli Star' ers dros ugain mlynedd. Mae'n gyfle i gyflwyno neges Gristnogol a bu'r ymateb dros y blynnyddoedd yn galonidd mawr.*



Rwy'n credu mai dyma'r unig golofn Gristnogol mewn papur wythnosol yng Nghymru. Rwy'n cyfrannu

epilog i Bapur Newydd y Deillion Llanelli ac yn un o gaplaniad Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli.

PP: I gloi, ry'ch chi'n w'r prysur iawn, mae'n amlwg, ond mae'n rhaid bod amser gennych i ymlacio weithiau!! Beth wnewch chi yn eich oriau hamdden?

DJ: *Wel, rwy'n gwirioni tipyn ar ffilmiau! Dw i hefyd yn mwynhau darllen a gwrando ar bob math o gerddoriaeth. Dw i ddim yn llawer o arddwr, rhaid cyfaddef, ond rwy'n hoffi plannu blodau a'u gweld nhw'n tyfu!*



Llawer iawn o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n Cwrdd Diolchgarwch

	<p>HOFF EMYNAU'R CYMRU</p> <p>Rob Nicholls</p> <p>Cyhoeddiadau'r Gair: £8.99</p> <p>Hydre fd 2022</p> <p><i>100 o Gymry Adnabyddus (yn cynnwys ein Gweinidog) yn sôn am eu hoff emynau</i></p>
--	---

CWRDD PLANT CYNTAF Y TYMOR NEWYDD



**Oedfa Blant a Phobl Ifanc
Bore Sul 4 Medi 2022**



Ar fore Sul cyntaf mis Medi, braf oedd cael croesawu plant y Priordy yn ôl i'r capel ar ôl gwyliau'r haf. Daeth nifer ohonynt ynghyd i'r oedfa ar ddechrau'r tymor newydd. Croesawodd Beti-Wyn bawb yn gynnes i'r gwasanaeth a chynnau kannwyll Wcráin ac offrymu gweddi dros y wlad. Yna aeth y gynulleidfa ati i gydadrodd Salm 33:

*Molwch yr Arglwydd â'r delyn,
Canwch salmau iddo â'r offeryn dectant;
Canwch iddo gân newydd,
Trawch y tannau'n dda, rhowch floedd.
Oherwydd gwir yw gair yr Arglwydd, ac mae ffyddlondeb yn ei holl
weithredoedd...*


Yna fe ganwyd emyn rhif 800, '*Un cam bach ar hyd y byd yr af...*' i gyfeiliant Band y Priordy. Cafwyd y cyhoeddiadau a diolchwyd i bawb am gyfrannu tuag at apêl y bagiau plastig ar gyfer y Banc Bwyd. Gwnaethpwyd y casgliad gan Nel, Meredydd, Rhys a Greta.

Yn nesaf canwyd emyn rhif 625 sef '*Duw sy'n codi ei dŷ ar y graig.*' Yna aeth Trystan i fyny i'r pulpud. Croesawodd bawb yn ôl ar ôl gwyliau'r haf gan ofyn i'r gynulleidfa a fu rhywrai i lan y môr, i Lansteffan neu Ddinbych-y-pysgod? Neu efallai y buodd rhai ar draethau tramor eleni? Fe'n hatgoffodd fod yr Iesu wedi bod ar y traeth droeon. Yno y galwodd y pysgotwyr i'w ddilyn, yno hefyd y tawelodd y storm a bwyta pysgod wedi'u rhostio gyda'i ddisgyblion. Tybed a aeth tywod i mewn i fara'r Iesu fel sy'n digwydd gyda'n brechdanau ni weithiau ar y traeth?!

Wedyn, daeth Noa i'r pulpud i adrodd hanes yr Iesu yn cael barbeciw gyda'i ddisgyblion ar lan y môr. Heb i'r disgyblion ei adnabod gofynnodd yr Iesu iddynt "*Oes gennych chi bysgod, ffrindiau?*". Gan nad oedd dim gyda nhw dywedodd wrthynt am daflu'r rhwyd ar ochr dde'r cwch a byddai digon iddynt. Ar ôl gwneud hyn roedd y rhwyd yn

llawn dop o bysgod. Sylweddolodd Simon Pedr mai'r Iesu oedd yn eu cwmni ac aethant ati i goginio'r pysgod a'u bwyta gydag ychydig o fara.

Yna daeth Cian i'r pulpud i lefaru gan sôn am ba mor fach yw gronynnau tywod ar y traeth. Dangoswyd llun o ronynnau tywod wedi ei chwythu i fyny'n fawr ar y sgrîn ac yn rhyfeddol roedd pob gronyn yn wahanol siâp a maint - rhai yn grwn, eraill yn sgwâr, rhai fel siâp sêr ac eraill fel cregyn bach. Eglurodd Cian fod y gronynnau tywod yma yn debyg i ni a bod Duw wedi ein creu ni i gyd yn wahanol ond fel tywod, rydym yn byw ac yn gweithio gyda'n gilydd.



Yn dilyn hyn gwelsom ffilm fer drawiadol ar y sgrîn. Neges y ffilm oedd pa mor bwysig yw hi i ni fod yn agos at ein gilydd ac at Dduw:

'O Dduw boed hi'n Haf neu Aeaf, yn law neu hindda, yn oer neu'n boeth, dydd neu nos, yn Swahili neu Gymraeg, gwna ni'n Ni yn dy gariad a thynna ni'n nes at ein gilydd ac ata ti.'

Yna yn eu steil hwyliog a sionc arferol aeth plant yr Ysgol Sul ati i gyfeilio'n wych gyda'u band taro i'r trydydd emyn sef rhif 794 *'Cristion bychan ydwy'n dilyn Iesu Grist'* Mae hi bob amser yn hyfryd gweld mwynhad y plant yn cyfeilio i'r canu a chael bod yn rhan o fand taro'r Priordy.

Llongyfarchodd Beti-Wyn bob un o blant yr eglwys ar eu llwyddiant yn eu harholiadau diweddar. Yna croesawodd y plant i'r sedd fawr mewn het a sbectol haul gan ddal bwced a rhaw. Holodd y plant ble buon nhw dros yr Haf. Roedd rhai wedi bod yn Ffrainc, Llangrannog, Ceinewydd, Ynys Enlli a rhai wedi aros mewn 'hotel'! Gan ddilyn y thema tywod cafodd y plant gwis i weld pwy oedd yn adnabod y gwahanol batrymau ar y tywod. Daeth llun o batrwm traed gwylan ar y sgrîn, yna ôl pawennau ci, patrwm symudiadau cranc, olion seren fôr, patrymau'r môr adeg llanw a thrai ac yn olaf olion traed person. Ar ôl trip i'r traeth mae'n anodd cael gwared ar y



tywod sydd rhwng bysedd ein traed a hyd yn oed ar ôl cael bath mae'r tywod yn cronni ar ei waelod. Adroddodd stori'r Iesu a'r bachgen ar y traeth. Wrth iddynt gerdded ar hyd y lan roedd y ddau wedi gadael olion traed dau berson ar y tywod. Ond ar ôl ychydig roedd yr olion wedi troi yn un ôl troed oherwydd roedd y bachgen wedi blino ac aeth yr Iesu ati i'w godi a'i gario ar ei ysgwyddau i'w helpu. Yn yr un modd mae Iesu yn ein helpu ni i gerdded ymlaen os ydyn ni wedi blino. Mae'n ein codi, yn cario'n beichiau ac yn rhoi'r nerth i ni i ddal ati. Y tro nesaf y byddwch chi ar lan y môr chwiliwch am olion a phatrymau gwahanol ond cofiwch edrych ar eich ôl troed eich hun gan gofio'r Iesu yn cario'r bachgen bach a'i fod yn ein helpu a'n nerthu ni o ddydd i ddydd yn yr un modd.




Yn dilyn emyn rhif 393 '*Iesu, Geidwad bendigedig*' gweinyddwyd y Cymun. Diolchwyd i bawb am eu cwmni cyn cloi'r gwasanaeth gyda emyn rhif 400:

*'Iesu yw'r lôr! Y cread sy'n cyhoeddi,
Cans drwy ei nerth pob llwyn a pherth a ddaeth i fod;
Iesu yw'r lôr! cyfanfyd sy'n mynegi,
haul, lloer a sêr datganant mai Iesu yw'r lôr.'*

CYFROL NEWYDD MIKE SHEPHARD

Mae'r Parchedig Mike Shephard wedi cyhoeddi llyfr yn dwyn y teitl **Big Gates and Small Hinges** – cyfrol sy'n ymwneud â materion go iawn, fel y dioddef yn Wcráin a'r Pandemig. Mae'n ddilyniant i'w gyfrol gyntaf – **Signs of Hope in Times of Darkness**. Mike yw Caplan Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a ffrwyth ei gyfraniadau wythnosol i **Siren**, cylchlythyr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yw'r cynnwys. Mae'r holl elw'n mynd at elusennau. Pris y gyfrol yw £14 a gellir archebu drwy e-bost: Mike.Shephard49@gmail.com



Mrs Irene Williams

Newid Hinsawdd

Yn ystod yr haf crasboeth eleni bûm yn gwranddo ar newyddion y byd gan fod gennyf ddiddordeb a chysylltiadau mewn nifer o wledydd.




Daeth i'm cof aeaf 1970. Roeddem yn byw yn Ottawa, prifddinas Canada, ar y pryd a chawsom saith troedfedd o eira. Nid oeddem yn medru mynd o'r tŷ a'r aradr eira yn methu dod allan am ddiwrnodau. Roedd y newyddion ar y radio yn awgrymu, os yn bosibl, i bobl i fynd allan ar y to i chwalu'r eira rhag i'r to ddymchwel. Roedd ein mab Eirian yn ddeunaw oed ac yn byw gyda ni, felly aeth e lan i'r llofft ac allan drwy'r ffenestr a lan i'r to a rhoio'r eira i'r ardd gefn. Roedd yr Eidalwyr yn credu fod llanw baddon â dŵr twym yn mynd i helpu'r eira i doddi. Ond daeth rhybudd i ni beidio â gwneud hyn gan fod y pipellau wedi rhewi ac yn methu derbyn y dŵr ac felly yn achosi llifogydd a oedd yn rhewi ar ben yr eira.

Nid oedd pantri bwyd yn y tai ond roedd gennym rewgelloedd a fyddai'n cael eu llenwi i'r ymylon ar ddechrau pob gaeaf ac roeddem yn cadw digon o laeth powdr hefyd. Roedd gan Eirian recordydd tâp ac felly caneuon pop Cymraeg fel rhai Dewi Pws a fu'n gwmni i ni yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n debyg mai hwn oedd y trwch mwyaf o eira a gofnodwyd a derbyniodd bawb dystysgrif i ddynodi hyn. Mae hwnnw heddiw yng nghartref Eirian yn Llandysul.



Hanner can mlynedd yn ddiweddarach does dim eira o gwbl. Dyma'r adeg y prynais ddau brint o waith yr Esgimo. Tynnwyd y gwreiddiol ar garreg ond collwyd y ddawn honno o arlunio hefyd. Mae'r ddau brint yn drysorau a bellach maent gyda dau o'm hwyrion, un ym Mangor a'r llall yn yr Alban.

Y flwyddyn ddilynol penderfynodd Cyril [Y Parchedig Athro Cyril Williams – un o gyn weinidogion y Priordy] fod yn rhaid i ni gael haul yn ystod y gaeaf. Felly dyma fynd am wythnos i ynysoedd y Caribî gan hedfan o Montreal. Roeddem wedi gwneud ymholiadau am y tywydd ymlaen llaw a chael gwybod fod yn rhaid i ni fod yn y maes awyr erbyn un ar ddeg o'r gloch. Roedd y car yn gwrthod cychwyn ac roedd y rhew yn drwchus. Ffonion ni Glyn Richards, un o'n cymdogion, ac yntau'n dweud wrthym beth i'w wneud ac o fewn rhyw chwech i saith munud dechreuodd y car ac fe yrrodd Eirian ni i Fontreal. Roedd y ffyrdd yn glir ac fe gyrhaeddodd mewn pryd. Ond



doedd dim peilotiaid, roeddent wedi cael eu rhwystro gan yr eira a'r rhew. Doedd dim eisiau i ni bryderu, roeddem yn siŵr o fynd oherwydd bod yr awdudrodau yn cysylltu â pheilotiaid a oedd yn byw yn agosaf at y maes awyr. Paratowyd digon o fwyd a diod i ni a chawsom le cynnes i aros ac erbyn tri o'r gloch y prynhawn roedd popeth yn barod i ni gael hedfan i'r gwres. O fewn tair awr roeddem ar y traeth a phawb yn torheulo. Aethom adref ar ôl wythnos o haul yn barod i wynebu'r tymor canlynol. Erbyn heddiw does dim angen cymorth i dorri'r îâ ar y camlesi. Yn anffodus mae dyn yn newid ac yn dinistrio trefn naturiol natur.



	<p>PANED A SGWRS</p> <p>Bore Mercher, 9 TACHWEDD 2022 - 10.30</p> <p>Gwesty'r Llwyn Iorwg</p> <p>Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr</p> <p>(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan)</p>	
---	--	--

H



Pa mor dda ydych chi'n'nabod eich emynau? Mae ail linell deg emyn isod. Tybed beth yw'r llinell gyntaf? Mae'n Rhifyn Hydref a chan hynny pob llunell gyntaf yn dechrau gyda H
Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!



1	gorffwysodd Duw o'i waith	H
2	a galw dy bobol ynghyd	H
3	sydd yn galw pawb i'r wledd	H
4	llifo drwot ti a mi	H
5	syrrhied o'i flaen angylion Duw	H
6	bywyd ynddynt sydd	H
7	heddiw'n fy ngharu, fy Ngheidwad yw ef	H
8	disglair fel y grisial clir	H
9	Halelwia!	H
10	heddwch ar ddaear lawr, yr hedd a fwriadwyd i mi	H

Atebion ar Dudalen 30

**PERERINDOD PROVIDENCE LLANGADOG A BETHLEHEM
DYFFRYN CEIDRYCH GYDA'U GWEINIDOG Y PARCHEDIG
CATRIN ANN YN YMWELD Â'R PRIORDY**



**ARDDANGOSFA'R CYNGOR YSGOLION SUL
YN Y PRIORDY**



DERBYN A MEITHRIN HADAU DUW

Yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn, mae cymunedau ar draws Cymru'n cyfarfod mewn eglwysi a chapeli i ddiolch i Dduw am y cynhaeaf.

Mae'n arferiad hwn, wrth gwrs, yn mynd yn ôl cannoedd o flynyddoedd, Efallai nad oes cymaint ohonom yng Nghymru ag a fu yn gweithio'n agos at y tir erbyn hyn ond mae'r hen arferiad yn dal yn berthnasol i lawer ohonom. Mae'r arferiad yn gyfle i ni bwylllo ac ystyried a sylweddoli cymaint sydd gennym i fod yn ddiolchgar amdano.



Wedi dweud hynny, tybed a yw'n gweddi o ddiolch bob amser yn taro'r nodyn cywir?



Hen stori yw honno am y wraig a aeth i siopa a gweld Duw y tu ôl i'r cownter. Mae'n gofyn iddo beth mae'n ei werthu a dyma hi'n cael yr ateb: '*Beth bynnag ydych chi ei eisiau, gallwch ei gael yma*'. Gan fanteisio ar y cyfle hwn, mae'r wraig yn gofyn am dangnefedd, cariad a llawenydd, nid yn unig iddi hi ei hunan ond i'r

holl fyd. Disgwyliai bethau mawr ac ni allai beidio â chuddio'i siom pan roiodd Duw becyn bach iddi. '*Anghofiais ddweud,*' meddai wrthi, '*Dydyn ni ddim yn gwerthu'r ffrwythau, dim ond yr hadau.*'

Mewn geiriau eraill, gall yr holl fyd gael tangnefedd, cariad a llawenydd ond yn gyntaf, mae'n rhaid i ni – chi a fi – hau'r hadau.

A ydyn ni yn ein gweddiau yn gofyn yn ddigonol i Dduw am gymorth i dderbyn yr hadau hyn yn y lle cyntaf ac yna'u hadu? Neu a ydym fel y wraig yn y stori, yn disgwyl am bethau mawr heb ymdrechu'n ddigonol amdanynt?



Fe gofiwn hanes gwasgaru'r hadau yn Nameg yr Heuwr. Tra oedd rhai hadau'n syrthio ar dir da, roedd llawer yn glanio mewn llefydd oedd yn anffafriol i dyfiant – ar lwybr, ar gerrig ac yn y drain. O ganlyniad, doedden nhw ddim yn gallu gwreiddio.

Tybed a ydy'n calonnau ni'n dir neu'n bridd da i dderbyn popeth sydd gan Dduw i'w gynnig i ni? Neu a ydyn ni'n gadael i bethau eraill dynnu'n sylw?

Onid ein her yw gweddio'n daer ar i Dduw blannu hadau tangnefedd, cariad a gwir lawenydd yn ein calonnau fel eu bod yn gwreiddio'n gadarn ac, yn tyfu, aeddfedu ac yn cynhyrchu cnwd arbennig? Ni fethodd gweddi daer erioed â chyrraedd hyd yn nef!



**Arddangosfa o luniau dyfrliw gwreiddiol
gan
D WALFORD DAVIES**

**Prynhawn Mawrth 25 Hydref 2022 – 2 tan 4
Gwesty'r Llwyn Iorwg**

**Mynediad am ddim Paned am ddim i bawb a
chyfle i gymdeithasu,**

**Canran o elw pob gwerthiant yn mynd at
Gymorth Cristnogol**



MUNUD I FEDDWL

**Bydd ein Gweinidog yn cyflwyno
Munud i Feddwl yn ystod rhaglen *Bore
Cothi ar Radio Cymru* bob bore Mercher
yn ystod mis Hydref**



BANER Y PRIORDY

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



Ifanc@Priordy

Hyfryd i weld pawb nôl yn yr Ysgol Sul wedi gwyliau'r haf. Ardderchog!

Erw Hir

Diolch yn fawr iawn i bawb a aeth i gynnal gwasanaeth yng Nghartref Erw Hir. Mae lluniau i'w gweld mewn man arall yn y papur hwn. Diolch arbennig i Jayne ac Angharad am drefnu.

Gwasanaeth Diolchgarwch



Bore Sul, 2 Hydref. Rhoddion i'r banc bwyd os gwelwch yn dda: tuniau, bisgedi, pasta, reis, grawnfwyd, llaeth powdwr, te, coffi, siwgrwr. Byddwn yn cwrdd yn y festri ychydig o funudau cyn 10 o'r gloch ac yn cerdded i mewn i'r capel gyda'n gilydd a chyflwyno ein rhoddion. Gobeithio y cawn eich cwmni.

Rhaghysbysiad!

Gwasanaethau Nadolig!

Gwasanaeth Nadolig PIP dan olau cannyll, nos Sul, 4 Rhagfyr am 5 o'r gloch.

Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ac eraill, P'nawn Sul, 11 Rhagfyr am 3 o'r gloch (ymarfer yn y bore am 10)



Sesiwn Grefft

Bore Sul, 16 Hydref am 10 yn y festri.
Dewch yn llw!

Calendr Hydref

Sul, 2 Hydref – Gwasanaeth Diolchgarwch
Sul, 9 Hydref – Ysgol Sul
Sul, 16 Hydref – Sesiwn Grefft
Sul, 23 Hydref – Ysgol Sul
Sul, 31 Hydref – Hanner Tymor

Hwyl Fawr tan y tro nesaf



Chwilotair Llythyren 'E'


X W U F E L I A S W W I Q F M D O L Y G
 E O V S P G G X C P N B F F D E A L E Z
 M E E F A E T H I O P I A E A I P N Q Q
 A F S X C P J B J Q T T P E S N R Y A T
 U A M E E F F E S I A I D V Z T Y E U U
 S A F C C P K I V D Y Y E N O C H F E V
 E L I R F I W W L Z U T R T X G T E Q I
 S K R M U G E U Y Y E X O D U S K N R A
 N O L A N V H L F B X D I Z F U N G C E
 E L I M E L E C H H E C X K T O A Y Q N
 E S G Y N I A D J W L L A P M Q U L A C
 D W Q S E W A B P D I I X S H Y N X H D
 E X R V S B J S Z B M L I T E Z F U T X
 N K Q Q E E E S H P R D E Y B X W E A E
 L X K V I F I W A W O B C Q W P X X M L
 Z D Y R A F D E B D A W B V I V V L J I
 U T S J O R W E D S X F G C D W R A E S
 N X S U M A H U I R D H O I E U N I C E
 I B G R F T G L T H A P K R I T N P X U
 M Y A G L A E B D E J S C S A L F T F S

ESEIA
 ELIAS
 ESTHER
 EUNICE
 ESGYNIAD
 ELISABETH
 ENOCH

ELISEUS
 EFFESIAID
 EXODUS
 ESECIEL
 EDEN
 EMAUS
 ELIM

EFENGYL
 EDRAS
 EFA
 ELIMELECH
 ELI
 EFFRATA
 ETHIOPIA

CLIRIO A GOSOD Y FESTRI AR GYFER Y TYMOR NEWYDD



GAIR O DDIOLCH

Diolch yn fawr iawn i Huw Jones, Jayne Woods ac Elin James am helpu'r gweinidog i glirio'r festri a'r capel yn barod ar gyfer y tymor newydd a pharatoi'r byrddau arddangos. Pawb i gadw'r lle'n daclus os gwelwch yn dda gan fynd ag unrhyw beth nad oes ei angen arnoch mwyach adref gyda chi!

Diolch, Beti-Wyn

Y DYNGARWR MELYS!

Tybed beth yw'ch hoff siocled chi? Byddai'n ddi-ddorol gwybod! Ar draws yr ystod oedran yng Ngwledydd Prydain mae'n debyg mai Mars Bar sydd ar y brig gyda Galaxy yn ail. Mae pobl ifainc yn hoff iawn o Wispas a Double Deckers tra bo'n well gan bobl hŷn Picnic Bar. Ydych dannedd chi'n dechrau dyfrio erbyn hyn? Wel, beth bynnag am brif hoffter pobl, y siocled sy'n gwerthu orau yng Ngwledydd Prydain yw Cadbury Dairy Milk! Chi'n ffansio hwnnw o gwbl?



George Cadbury, a fu farw 24 Hydref 1922, gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, fu'n gyfrifol am lansio'r Milk Bar a hynny ym 1905. Mae'n gynnyrch o ansawdd arbennig ac yn far siocled sy'n cynnwys mwy o laeth nag unrhyw un arall ar y farchnad. Am y

tro cyntaf llwyddodd cwmni Prydeinig i fasgynhyrchu siocled llaeth. O'r dechrau'n deg cafodd ei lapio mewn papur melysion porffor arbennig. Awgrymwyd sawl enw i'r siocled hwn yn cynnwys 'Highland Milk', 'Jersey' a 'Dairy Maid' Ond pan awgrymodd merch un cwsmer 'Dairy Milk' cydiodd yr enw ar unwaith a mynd â hi!

Ganed George Cadbury yn Birmingham ar 19 Medi 1839. Cymerodd drosodd gwmni ei dad, nad oedd yn llewyrchus ar y pryd, gyda'i frawd hynaf Richard ym 1861 a'i godi i'r uchelfannau dan yr enw Cwmni Masnachu Coco a Siocled y Brodyr Cadbury. Y cwmni hwn ym 1866 oedd y cyntaf yng Ngwledydd Prydain i werthu coco fel diod. Symudwyd y busnes ym 1879 o Birmingham ddiwydiannol i ardal wledig a enwyd ganddynt yn Bournville.

Ond mae cymaint mwy i George Cadbury na choco a siocled!

Nid un unig mae'n enwog am sefydlu cwmni sioceld llewyrchus ond hefyd sicrhau amgylchiadau ffafriol i'w weithwyr cyffredin. Roedd yn adnabyddus yn ogystal am ei waith da dros y rhai a oedd yn llai ffodus nag ef ei hun.



Cododd Cadbury nifer bach o dai ar y safle newydd yn Bournville ar gyfer y prif weithwyr. Yn ddiweddarach cododd lawer iawn mwy ohonynt i ffurfio pentref deniadol Bournville. Roedd y tai hyn yn llawer gwell na chartrefi eraill y dosbarth gweithiol a sicrhodd Cadbury fod gardd gan bob un ohonynt. Cynhwyswyd cyfleusterau eraill, fel ysgolion, tai golchi, ystafelloedd darllen ac ysbytai yn y pentref. Anogodd Cadbury ei weithwyr hefyd i gymryd rhan mewn chwaraeon.


Ym 1906, talodd dros £60,000 i gronfa bensiwn ar gyfer ei weithwyr. Byddai'n trefnu digwyddiadau ar gyfer plant lleol yn y theatr a gafodd ei hadeiladau ar dir ei gartref, Northfield Manor. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain o'i haelioni arbennig at ei weithwyr a phobl Bournville a Birmingham yn gyffredinol.

Roedd yn Gristion i'r carn. Fel ei deulu, yn perthyn i'r Crynwyr neu Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, enwad Cristnogol a sefydlwyd yn Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg. 'Offeiriadaeth pob crediniwr' yw cred pwysicaf y Crynwyr. Cododd Cadbury'r Tŷ Cwrdd yn Bourneville ym 1905 fel man addoli ar gyfer pobl leol. Mae heddychiaeth hefyd yn bwysig iawn i'r Crynwyr. Gwrthwynebai Cadbury'r Rhyfel yn erbyn y Boeriaid (1899-1902). Gresynai fod y Rhydfrydwyr wedi dwyn Gwledydd Prydain i mewn i'r Rhyfed Byd Cyntaf (1914-18). Cefnodd arnynt a symud ei deyrngarwch a'i gefnogaeth



i'r Blaid Lafur Annibynnol a oedd yn erbyn y rhyfel. Prynodd hefyd y *Daily News* [y News Chronicle yn ddiweddarach] yn 1901 a'i ddefnyddio fel dull o weithredu dros bensiynau i'r henoed ac yn erbyn y Rhyfel yn erbyn y Boeriaid a llafur slafaid.

Ymddiddorai Cadbury mewn gwaith gyda'r Mudiad Oedolion yn ei oriau hamdden. Bu'n athro mewn ysgol i oedolion yn Birmingham ac yn arweinydd dosbarth Beiblaidd. Fel y dywed Pobl y Ffordd 2: *Dysgodd gannoedd o ddynion y ddinas i ddarllen ac ysgrifennu a thrwy ymwneud â'r bobl hyn dysgu beth oedd eu hanghenion.'*



Yn ddiamau, roedd George Cadbury yn ddiwygiwr cymdeithasol o'r iawn ryw yn ei ddydd a'i argyhoeddiad crefyddol dwfn yn gymhelliant iddo fyw a gweithredu yn y modd arbennig a wnaeth.

**CRISTNOGAETH 21
GORWELION NEWYDD
CYNHADLEDD FLYNYDDOL 2022**

**Canolfan y Morlan, Aberystwyth
Dydd Sadwrn 22 Hydref 2022 – 10.30-3.30**

**Cyfle i gyfrannu at gyfeiriad a datblygiad C21 i'n dyfodol
ac i drafod dwy o themâu gweithredol cyfredol y mudiad
Capeli a Chartrefi**

Cydweithio mewn Cenhadaeth

Cyfranwyr

**Dafydd Iwan, John Roberts, Pryderi Llwyd Jones,
Cris Tomos, Luned Voyle, Gareth Ioan a mwy**

Pris, gan gynnwys coffi a chinio - £25 i'w dalu ar y dydd

**Cofrestrwch drwy anfon e-bost at
Crisnogaeth21@gmail.com cyn Dydd Llun 17 Hydref**

Cyfarfod Blynyddol C21 i'w gynnal am 3.00

Gorymdaith ac Oedfa



Rwy'n ysgrifennu at yr holl gymunedau ffydd yng Nghaerfyrddin yn eich gwahodd i ymuno ag Undeb Mamau Esgobaeth Tyddewi mewn



gorymdaith ar y diwrnod sy'n cychwyn 16 Diwrnod o Actiffaeth y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Trais ar sail rhyw.

Mae Undeb y Mamau yn ymuno â miloedd o sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth o Drais ar Sail Rhywedd (GBV) ac i ymgyrchu yn ei erbyn. GBV yw un o'r troseddau hawliau dynol mwyaf systematig ac eang. Gall effeithio ar unrhyw berson ar unrhyw adeg; mae'n digwydd mewn sawl ffurf ac yn rhychwantu llawer o gymdeithasau. Gall fod yn rhan o normau cymdeithasol diwylliant; gellir ei guddio y tu ôl i ddrysau caeëdig. Mae trais ar sail rhyw yn groes i hawliau dynol. Mae'n ymosodiad diflino ar urddas dynol, gan amddifadu pobl o'u hawliau dynol. Mae rhyddid rhag trais yn hawl dynol sylfaenol, ac mae trais ar sail rhyw yn tansellio ymdeimlad person o hunanwerth a hunanbarch. Mae'n effeithio nid yn unig ar iechyd corfforol ond hefyd ar iechyd meddwl ac fe allai arwain at hunan-niweidio, ynysu, iselder ac ymdrechion hunanladdol.

Mae'r 16 Diwrnod o Actiffaeth y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Trais a cham-drin ar sail rhywedd yn ymgyrch ryngwladol flynyddol. Mae'n digwydd rhwng 25 Tachwedd - Diwrnod rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn erbyn Menywod - a 10 Rhagfyr - Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol.



A wnewch chi a'ch cynulleidfaoedd ymuno â ni wrth i ni orymdeithio o Sgwâr Guildhall Caerfyrddin hyd at Eglwys San Pedr? Byddwn yn cyfarfod yn Sgwâr y Guildhall am 4 o'r gloch ac yn gorymdeithio gyda llusernau, canhwyllau



a thortshis i wasanaeth yn Eglwys San Pedr am 5 o'r gloch.

Enfys Thomas

Papur Priordy'n cofio...

JOHN GWILI JENKINS

(1872 - 1936)

Diwinydd, bardd, a llenor



FE'I ganed yn Yr Hendy Pontarddulais ar 8 Hydref 1872, sef cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn.

Dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr ac aeth i dderbyn ei addysg gan Watcyn Wyn cyn mynd i'r Brifysgol ym Mangor a Chaerdydd. Yna aeth i Goleg yr Iesu Rhdychen a graddio mewn diwinyddiaeth. Enillodd hefyd BLitt a D Litt

Cyn ac ar ôl bod yn Rhydychen bu'n dysgu yn Ysgol y Gwynfryn, sef ysgol Watcyn Wyn yn Rhydaman.

Meddai'r Bywgraffiadur Cymreig: *Nid oedd ynddo dynfa at y fugeiliaeth (gwrthododd dair galwad), ac er bod gwrandawyr effro a meddylgar yn mawrhau ei bregethu, yr oedd ei barabl gorgyflym, a'i syniadau blaengar, braidd yn dramgwydd i'r cyffredin.*

Ym 1917 aeth i Goleg y Brifysgol Caerdydd yn ddarlithydd yn y Gymraeg cyn mynd i Fangor yn athro'r Testament Newydd yng Ngholeg y Bedyddwyr (ac yng Ngholeg y Brifysgol).

Cyhoeddodd lawer a bu'n Olygydd *Seren Cymru* am ddau gyfnod. Lluniodd gyfrol ar hanes diwinyddiaeth yng Nghymru, sef *Hanfod Duw a Pherson Crist* – ei waith pwysicaf, mae'n debyg.

Enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1901 ac chafodd ei ethol yn Archdderwydd ym 1931.

Roedd yn briod a chanddo ddwy ferch. Bu farw 16 Mai 1936 a'i gladdu ym mynwent Capel Annibynnol Llanedi.

Mae ganddo chwe emyn yn Caneuon Ffydd (32 37 253 378 593 a 694). Emyn poblogaidd yw *Cenwch i'r Arglwydd* - Rhif 32) ond trown y tro hwn at *Ddiddanydd Anfonedig Nef* -Rhif 593.

Mae hanes y cefndir i'r emyn hwn yn ddiddorol. Fel yr esbonia Huw Powell Davies yn *Emynau'r Ffydd* (Cyhoeddiadau'r Gair 2004) erfyniad

sydd ynddo am brofi'r un effeithiau yn ein dyddiau ni ag a brofwyd ar Ddydd y Pentecost.

Dywed Huw Powell Davies fod Gwili'n byw yn Rhydaman yn ystod Diwygiad 1904-5 a'i brofiad y pryd hwnnw sy'n gefndir i'r emyn. Yn Rhydaman y clywodd y '*sw'n o'r nef*' a theimlo '*yr awel gref* ac mae'n rhyfeddol meddwl am y cyffro a fu yn yr ardal hon, fel mewn rhannau eraill o Gymru, y pryd hwnnw.'



Mae Nantlais Williams yn ei gyfrol *O Gopa Bryn*



Nebo, yn sôn am yr hyn ddigwyddodd dros y Sul yn Nhachwedd 1904. Roedd Gwili'n darlithio yn y Gymdeithas Lenyddol ym Methani ar yr un noson ag a drefnwyd cyfarfod answyddogol yn y capel wedi ymweliad Joseph Jenkins [Arweinydd blaenllaw yn y diwygiad a gweinidog Methodistiaidd Ceinewydd]

â'r ardal. Cyn diwedd y ddarlith clywyd canu bendigedig yn dod o'r capel a phethau rhyfeddol yn digwydd yno. Denwyd y bobl o'r ddarlith i'r capel ac aeth y cyfarfod a ddechreuodd yno am wyth o'r gloch ymlaen tan hanner awr wedi dau yn y bore!

Hiraethai Gwili am brofiadau tebyg eto ond gwyddai, wrth gwrs, na fyddem yn gweld Gwanwyn Duw yma yng Nghymru, fel unrhyw wlad arall, hyd nes i ni fraenaru tir ar ei gyfer.

Dyma emyn Gwili'n llawn

**Ddiddanydd anfonedig nef,
fendigaid Ysbryd Glân,
hiraethwn am yr awel gref
a'r tafod tân.**

**Erglyw ein herfyniadau prudd
am brofi o'th rad yn llawn,
gwêl a oes ynom bechod cudd
ar ffordd dy ddawn.**

Cyfranna i'n heneidiau trist
orfoledd meibion Duw,
a dangos inni olud Crist
yn fodd i fyw.

Am wanwyn Duw dros anial gwyw
dynolryw deffro'n llef,
a dwg yn fuan iawn i'n clyw
y sŵn o'r nef.

Rho'r hyder anorchfygol gynt
ddilynai'r tafod tân;
chwyth dros y byd fel nerthol wynt,
O Ysbryd Glân.



Er gwybodaeth,

Bydd yr Athro Denzil Morgan yn traddodi darlith
ar Emynau Gwili dan nawdd Cymdeithas
Emynau Cymru ar Zoom ar 12 Hydref 2022.

Manylion cyswllt: JamesEW@caerdydd.ac.uk



RHAGHYSBYSIAD

Te Prynawn

Pnawn Sul, 28 Ionawr 2023 am 4 o'r gloch yn y
Llwyn Iorwg.
Pris £9

Siaradwr gwadd,
Peter Hughes Griffiths
yn traddodi ar 'Merched yn fy mywyd'!



Theatr Genedlaethol Cymru
yn cyflwyno
TYLWYTH
gan
Daf James
5-7 Hydref 2022
Theatr y Ffwrnes, Llanelli
Tocynnau: 0345 226 3510
theatrau@sirgar.gov.uk



♪ CWIS YR EMYNAU ATEBION ♪		
1	Hwn yw y sanctaidd ddydd	2
2	Hiraetha defynau dy deyrnas	264
3	Hyfryd lais Efengyl hedd	271
4	Hedd sy'n llifo fel yr afon	281
5	Henffych i enw lesu gwiw	304
6	Hyfryd eiriau'r lesu	381
7	Hapus wyf fi fod lesu'n y nef	402
8	Heddiw'r ffynnon a agorwyd	498
9	Heddiw cododd Crist yn fyw	555
10	Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i	867

Cynefin (*gyda band*) *Syniad Owen Shiers, un o frodorion Dyffryn Clettwr yw Cynefin. Wedi'i gyfareddu gan gerddoriaeth a hanes, mae'r prosiect yn rhoi llais i dreftadaeth gyfoethog Ceredigion sydd eisoes wedi mynd yn angof. Yn perfformio gyda'i driawd, mae Owen yn rhoi llais cyfoes i'r straeon a chaneuon hynafol yma.*



Theatr y Lyric, Caerfyrddin
9 Tachwedd 2022 – 7.30
Tocynnau: 0345 226 3510 theatrau@sirgar.gov.uk



Yr argyfwng **COSTAU BYW**

Wrth i ni wynebu'r hydref a'r gaeaf mwyaf anodd ers blynyddoedd, beth allwn ni ei wneud i ddiogelu ein haelodau a helpu eraill yn ein cymunedau?

CYMORTH ARIANNOL

Sicrhau fod pawb yn gwybod pa help ariannol sydd ar gael iddynt.

Ewch i: lyw.cymru/cael-help-gyda-chostau-byw

Neu cysylltwch â'ch Cyngor Sir. Er enghraifft, yn Sir Gâr galwch mewn i'r HWB yn hen adeilad Debenhams, ffonio 01267 234567 / e-bostio galw@sirgar.gov.uk
Mae gan bob Cyngor Sir ganolfan debyg.

ARBED YNNI YN Y CARTREF

Gallai gwneud pethau bach fel peidio â bod yn y gawod am fwy na 4 munud, peidio gorlanw'r tegell, troi'r thermostat lawr un radd (ond gofalwch peidio a sythu) etc. arbed cannoedd o bunnau i chi.

energysavingtrust.org.uk/hub/quick-tips-to-save-energy

DEFNYDDIO EIN HADEILADAU

Ystyried agor y festri am ddiwrnod neu ddau yn ystod yr wythnos i gynnig lle cynnes gyda diodydd poeth a chyfle i glebran!


Darparu cardiau i'r eglwysi i'w dosbarthu gyda manylion cyswllt.

Cafodd y poster hwn ei baratoi gan Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Ceidwad y Ceirydd

JOHN RODERICK REES

Tyddynwr, Bardd, Athro




CEIDWAD Y CEYRYDD

John Roderick Rees
Tyddynwr, Prifardd, Athro

D Islwyn Edwards

Carreg Gwalch: £9.95




COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com



AR Y WE: www.priordy.org (*yn cynnwys Papur Priordy*)

I'CH DYDDIADUR
NOSON LAWEN LLYFRAU LLAFAR CYMRU
NOS WENER 11 TACHWEDD 2022 - NEUADD SAN PEDR



Place-Names of
Carmarthenshire

Richard Morgan
Welsh Academic Press
Awst 2022 £19.99

Y cyhoeddiad cyntaf i archwilio enwau lleoedd hanesyddol Caerfyrddin (1536-1974) yn cynnwys rhan orllewinol y sir a drosglwyddwyd i sir Benfro ym 1996

DENG MUNUD O DAWELWCH DROS HEDDWCH GYDA'R HWYR AR DDIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL

Y CENHEDLOEDD UNEDIG

21 MEDI 2022



YR YSGOL SUL YN CYNNAL GWASANAETH YN ERW HIR



DIOLCHGARWCH YR OFALAETH - 2022

Y PRIORDY	
Bore Sul, 2 Hydref am 10	Gwasanaeth Plant gyda Beti-Wyn Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd
Nos Sul 2 Hydref am 5	Cwrdd Diolchgarwch a Chymun <i>gyda'r</i> Parchedig David Jones Greenfield, Llanelli a'n Gweinidog Swper i ddilyn
CANA	
Dydd Sul, 9 Hydref am 3	Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'r Gweinidog Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd
Nos Iau 13 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Siân Elin Jones Swper i ddilyn
BANCYFELIN	
Dydd Sul, 9 Hydref am 1.30	Cwrdd Diolchgarwch y gyda'r Gweinidog Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd
Nos Iau, 20 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Roger Thomas Swper i ddilyn

HEFYD

<p>CWRDD DIOLCHGARWCH CLWB FFERMWYR IFAINC DYFFRYN TYWI Cadeirydd – Heledd Jones Nos Lun 10 Hydref 2022 – 7 o'r gloch - Y Priordy</p>
--

Mae croeso i bawb ym mhob un o'r gwasanaethau hyn

RHAGOR O'R ERW HIR



YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



YN DYMUNO CYFAMODI?
DENNIS JONES
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI
Croeso i chi gysylltu ag e!

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Jayne Woods, Angharad Wyn, Lowri Davies a'r Parchedig David Jones am y lluniau'r mis hwn.





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Hydref		Tachwedd	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas	Philip Jones	Jayne Woods	Huw Jones



BLODAU



Hydref	2	Hilary Kynaston	Tachwedd	6	
	9			13	Eirlys Davies
	16	Catrin H Williams		20	
	23			27	Gloria Evans
	30	Margaret LI Evams			



PARATO'I'R BWRDD CYMUN



Hydref	2	Hwyr	Llinos Jones ac Eleri Marks
Tachwedd	6	Bore	Thelma Evans a Jayne Woods



DARLLENWYR



Hydref	2	Y Plant	Tachwedd	6	Y Plant
	9	Angharad Wyn		13	Eirlys Davies
	16	Lleucu Edwards		20	Alwen Owen
	23	Catrin Mair Jones		27	Sulwyn Thomas
	30	Adrian Evans			



CYHOEDDWYR



Hydref	Huw Michael	Tachwedd	Alison Parsons
--------	-------------	----------	----------------

RHWYDWAITH



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylydus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Dan Evans ac Ann Griffiths y tro hwn. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Llongyfarchiadau mawr i Eurwen a Malcolm Jones ar ddathlu eu priodas ddeimwnt yn ystod mis Awst. Yr un llongyfarchiadau hefyd i Dennis a Rhian Jones ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddynt oll i'r dyfodol.

Un a fu'n ffodus i ennill gwobr ar ôl cael mynediad i'r Gwesty Gwobrau ar Raglen Ifan Jones Evans ar Radio Cymru yn ddiweddar oedd Eira Phillips. Da iawn!

Bu Beti-Wyn ar Prynawn Da yn sôn am Ddiwrnod Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig a Catrin Haf Williams ar Radio Cymru ac S4C adeg angladd y Frenhines.



Bu tipyn o gyffro yng Nghaffi Rhiannon yn Cross Hands adeg dathlu un o'r cwsmeriaid ffyddlon yn 100 oed. Roedd Heno yno i anrhegu'r gŵr canmlwydd oed a chafwyd cyfweiliad â Gill Owens sy'n aml yn rhoi help llaw yng nghaffi'r teulu.

Mae'n dda cael cynghorion doeth ar y cyfryngau torfol o bryd i'w gilydd gan Huw Michael yng nghanol yr argyfwng ynni presennol. Bu ar Radio Cymru ac S4C yn trafod opsiynau Llywodraeth Gwledydd Prydain i ariannu cost rhewi prisiau nwy a thrydan, a'r cyswllt rhwng prisiau trydan a phrisiau nwy. Soniodd am y camau mae gwledydd eraill

wedi'u cymryd i ddygymod â'r mater. Hefyd, roedd yn rhagweld y byddai prisiau'n dal yn uchel am ail aeaf pe na bai Rwsia'n ailddechrau cyflenwi'r nwy sydd ei angen i wledydd eraill Ewrop. Cafodd ei holi yn ogystal ar Dros Frecwast ar Radio Cymru ynglŷn â'r cymorth disgwylidig i fusnesau gyda thaliadau ynni gan y Llywodraeth - faint fyddai'r cymorth, am ba hyd, ac o ble fyddai'r Llywodraeth yn cael yr arian.

Bu nifer o'n haelodau'n brysur yn ystod y mis, yn enwedig Peter Hughes Griffiths, mewn perthynas â dathlu deugain mlynedd o efeillio rhwng Lesneven yn Llydaw a Chaerfyrddin. Braff oedd croesawu cynrychiolaeth o Lesneven i'n tref a chael cwmni un ohonynt yn y Priordy. Bu'n Gweinidog ac eraill hefyd, yn cynnwys yr Ysgol Sul, yn cymryd rhan yng gweithgareddau Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023. Bu'n Gweinidog hefyd yn trefnu'n lleol ar gyfer dathlu Diwrnod Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig.

I GLOI, ein dymuniadau gorau i Ann Griffiths a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 10 Hydref - ffigur crwn! Ein cyfarchion cynhesaf, Ann, oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n
Gweinidog neu Alun Charles

CYMDYMDEIMLAD

Tristwch oedd clywed am golli un o'n haelodau, sef Muriel Gibby, gweddw'r diweddar John Gibby, Castell Tywi a chynt o Lanllwch, ar Ddydd Mercher 21 Medi 2022. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r merched Susan a Judith a'r wyrion Nia a Steffan. Bydd teyrnged i Muriel yn ein rhifyn nesaf.



Y SULLIADUR



Hydref	2	Bore Hwyr	Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'n Gweinidog Oedfa Gymun a Swper Diolchgarwch gyda'n Gweinidog a'r Parchedig David Jones	C
	9	Bore	Ein Gweinidog	
	16	Bore P'nawn	Ein Gweinidog Dechrau Canu Dechrau Canmol yn y Tabernacl, Treforys. Manylion y tu mewn	
	23	Bore P'nawn	Ein Gweinidog Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth. Manylion y tu mewn	
	30	Bore	Y Parchedig Jeff Williams	

Tachwedd	6	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	C
	13	Bore	Ein Gweinidog	
	20	Bore	Ein Gweinidog	
	27	Bore	Y Parchedig Gareth Ioan	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP- Cwrdd Plant OD - Oedfa Deulu								
Hydref					Tachwedd			
2	9	16	23	30	6	13	20	27
CP	✓	✓	✓	-	CP	✓	✓	✓

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

DALIER SYLW

Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r
Sulliadur mewn da bryd.

